Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Cyfranogiad Trydydd Parti

## Cynnwys

1. Pwrpas a Chwmpas ..... 3
2. Y berthynas a’r rhyngwyneb â pholisïau a strategaethau eraill ..... 3
3. Cyfrifoldebau ..... 3
4. Diffiniadau ..... 4
5. Person sy’n cynorthwyo: ..... 5
6. Y weithdrefn ar gyfer Penodi Cynrychiolydd Trydydd Parti ffurfiol (cynrychiolydd a enwir) ..... 6
7. Dirymu cyfrifoldeb Cynrychiolydd Trydydd Parti ..... 6
8. Ymholiadau Trydydd Parti ..... 7
9. Ymddygiad Annerbyniol ..... 7
10. Asesiad o’r Effaith ..... 8
11. Awdur y polisi ..... 9
12. Rheoli Fersiynau Dogfennau ..... 9

## 1. Pwrpas a Chwmpas

1.1. Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd myfyrwyr yn dymuno cael eu cynghori, eu cynorthwyo neu'u cynrychioli gan drydydd parti yn ystod prosesau ffurfiol y Brifysgol. Mae'r polisi a'r weithdrefn hon yn berthnasol i staff a myfyrwyr PCYDDS ac unrhyw drydydd parti a allai fod yn cynghori, cynorthwyo neu gynrychioli myfyrwyr yn ystod un o weithdrefnau PCYDDS. Mae'n rhoi arweiniad ar y weithdrefn i'w dilyn ar draws y Brifysgol os bydd trydydd parti yn cymryd rhan. Bydd hyn yn hwyluso dull cyson ar draws Athrofeydd a Gwasanaethau Proffesiynol ac yn helpu sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu trin yn deg ac yn gyfiawn.

1.2. Mae'r Brifysgol yn gwahaniaethu rhwng cyngor trydydd parti a/neu gymorth a chynrychiolaeth ffurfiol gan drydydd parti. Diffinnir y gwahaniaeth hwn drwy'r polisi.

1.3. Bydd y ddogfen hon yn berthnasol i holl bolisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r polisïau canlynol: Cwynion, Apeliadau, Addasrwydd i Ymarfer, Cymorth i Astudio, Camymddwyn Academaidd ac Anacademaidd, ac Amgylchiadau Lliniarol. Dylid ei darllen ar y cyd â'r polisi a'r weithdrefn berthnasol sy'n manylu'r broses a'r camau i'w dilyn.

1.4. Yn achos myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni astudio mewn sefydliadau partneriaeth gydweithredol neu yng Ngholegau Cyfansoddol y Brifysgol, dilynir gweithdrefnau'r sefydliad hwnnw yn y lle cyntaf fel arfer.

## 2. Y berthynas a'r rhyngwyneb â pholisïau a strategaethau eraill

2.1. Mae nifer o strategaethau, polisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn hon, gan cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

a. Polisi Amgylchiadau Lliniarol;
b. Polisi Cymorth i Astudio;
c. Polisi Addasrwydd i Ymarfer;
d. Y Polisi Iechyd a Diogelwch;
e. Protocol Lleoliadau;
f. Gweithdrefnau Prevent;
g. Y Polisi Diogelu;
h. Polisi Aflonyddu a Bwlio Myfyrwyr;
i. Polisi Disgyblu Myfyrwyr (Camymddwyn Anacademaidd);
j. Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
k. Polisi Camymddwyn Academaidd.

## 3. Cyfrifoldebau

3.1. Y **Swyddfa Academaidd** sydd â pherchnogaeth y ddogfen weithdrefnol hon ar ran y Brifysgol ac mae'n gyfrifol am adolygu ei gweithrediad o bryd i'w gilydd.

3.2. Mae'r **Swyddfa Academaidd** yn rheoli camau canolog y Brifysgol o ran Apeliadau/ Cwynion Academaidd a Chamymddwyn Academaidd ac Anacademaidd, yn ogystal â'r polisi Addasrwydd i Ymarfer a Chymorth i Astudio, ac mae'n rhoi cyngor ac arweiniad ar y gweithdrefnau hyn.

3.3. Mae **Swyddogion Achosion** yn cyflawni ystod o rolau mewn perthynas â'r weithdrefn berthnasol, yn cynnwys cynnal unrhyw asesiad risg rhagarweiniol, cwblhau ymchwiliad, a gwneud argymhellion. Mae'n bosibl y bydd mwy nag un Swyddog Achosion ar gyfer achos penodol, a bydd rôl benodol gan bob swyddog mewn perthynas â'r achos.

3.4. **Myfyrwyr:** Gall myfyrwyr ddewis cael eu cynghori, eu cynorthwyo neu'u cynrychioli gan drydydd parti yn ystod un o brosesau ffurfiol y Brifysgol. Ni waeth beth fo unrhyw drefniadau cymorth neu gynrychiolaeth, mae myfyrwyr yn dal i fod yn atebol i reolau'r Brifysgol, yn enwedig o ran Cod Ymddygiad y Myfyrwyr, y Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau Academaidd, a Rheoliadau'r Rhaglen y maent wedi cofrestru arni.

3.5. **Trydydd Partïon:** Mae'n rhaid i unrhyw drydydd parti sy'n ymwneud â chynghori, cynorthwyo neu gynrychioli myfyriwr drwy un o brosesau ffurfiol y Brifysgol gydymffurfio â thelerau'r ddogfen hon, a phob un o bolisïau eraill y Brifysgol yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymddygiad ac aflonyddu.

3.6. **Undeb Myfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (UMYDDS):** Mae UMYDDS ar gael i gynnig cyngor a chymorth arbenigol i fyfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl pob un o'r gweithdrefnau ffurfiol.

3.7. Mae'r Polisi a'r Weithdrefn ar Gyfranogiad Trydydd Parti yn weithdrefn fewnol ac nid yw'n broses gyfreithiol. Mae'r Brifysgol yn cynghori myfyrwyr i ddefnyddio gwasanaethau UMYDDS, sy'n annibynnol ar y Brifysgol ac sydd â dealltwriaeth lawn o brosesau a gweithdrefnau'r brifysgol. Nid yw PCYDDS fel arfer yn defnyddio gweithwyr cyfreithiol proffesiynol i ymdrin ag achosion, ac nid yw'n disgwyl y bydd angen i fyfyrwyr wneud hynny chwaith. Fel arfer ni chaniateir i fyfyrwyr gyflogi gweithwyr cyfreithiol proffesiynol.

## 4. Diffiniadau

4.1. **Trydydd Parti:** At ddibenion y weithdrefn hon, diffinnir trydydd parti fel person nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r materion sy'n ymwneud â'r prosesau ffurfiol ond sydd yn cynghori, cynorthwyo neu gynrychioli'r myfyriwr drwy'r broses. Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig datganedig y myfyriwr y bydd y Brifysgol yn cydnabod cynrychiolydd trydydd parti ffurfiol (gweler adran 5 ac Atodiad 1). Fel arfer, bydd y Brifysgol yn caniatáu un cynrychiolydd trydydd parti yn unig i fod yn rhan o unrhyw achos ar unrhyw un adeg.

4.2. **Y myfyriwr** = y myfyriwr sydd dan sylw yn y polisi neu'r weithdrefn berthnasol. Mae hyn yn cynnwys yr holl fyfyrwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithdrefn (e.e. y myfyriwr sy'n cyflwyno honiad, myfyriwr sy'n destun honiad, myfyriwr y gwneir cyhuddiad yn ei erbyn neu y codir pryder yn ei gylch) ond dim tystion.

4.3. **Person sy'n cynorthwyo:** Mae'r Brifysgol yn parchu hawl myfyrwyr i gael eu cynghori a'u cynorthwyo trwy unrhyw un o weithdrefnau ffurfiol y Brifysgol pe baent yn dymuno hynny. Yn hyn o beth, mae'r Brifysgol yn diffinio cymorth fel mynychu cyfarfodydd gyda myfyriwr, derbyn copïau o ohebiaeth, ond nid cyfathrebu'n uniongyrchol â'r Brifysgol neu gyflwyno achos ar ran y myfyriwr. Fel arfer bydd y Brifysgol yn caniatáu un person yn unig i fynychu cyfarfod gyda'r myfyriwr neu i dderbyn copïau o ohebiaeth. Mae'n bosibl y bydd myfyriwr hefyd yn dymuno rhoi caniatâd i'r Brifysgol i ymateb i ymholiadau gan drydydd parti (e.e. rhiant/ gwarcheidwad), ond ni fydd y trydydd parti yn cymryd yr awenau o ran cynrychiolaeth (fel y disgrifir yn adran 4.5) – gweler adran 8 ar gyfer y weithdrefn yn yr achos hwn.

4.4. **UMYDDS:** Mae UMYDDS yn annibynnol ar y Brifysgol ac yn darparu cymorth i fyfyrwyr mewn nifer o feysydd, gan gynnwys meysydd sy'n ymwneud â phrosesau ffurfiol y Brifysgol. Oherwydd eu harbenigedd, argymhellir yn gryf fod myfyrwyr sy'n dymuno cael eu cynorthwyo trwy unrhyw un o weithdrefnau'r Brifysgol yn ystyried cysylltu ag UMYDDS yn hytrach nag unrhyw drydydd parti arall. Fodd bynnag, mae

gan fyfyrwyr yr hawl i gael eu cynorthwyo gan drydydd parti arall megis ffrind neu gynrychiolydd corff proffesiynol perthnasol.

4.5. **Cynrychiolaeth:** Mae'r Brifysgol yn annog myfyrwyr yn gryf i gynrychioli'u hunain a chyfathrebu'n uniongyrchol â'r Brifysgol ar bob mater gan gynnwys materion sy'n ymwneud â gweithdrefnau ffurfiol y Brifysgol. Weithiau mae'n bosibl y bydd yn well gan fyfyrwyr benodi cynrychiolydd. Os yw'r cynrychiolydd trydydd parti hwn yn gweithredu'n benodol ar ran y myfyriwr, bydd angen ei enwebu'n ffurfiol yn unol ag adran 6 isod. Gall UMYDDS hefyd gytuno'n ffurfiol i gynrychioli myfyriwr mewn rhai amgylchiadau.

4.6. **Myfyrwyr sydd o dan 18 oed:** Os yw'r myfyrwyr o dan 18 yna mae'n rhaid iddynt enwi trydydd parti penodol.

4.7. **Cyflwyno Apêl neu Gŵyn.** Rhaid i unrhyw Gŵyn neu Apêl gael ei gyflwyno gan y myfyriwr ei hun ac o fewn terfynau amser cyhoeddedig fel yr amlinellir yn y polisi perthnasol. Ni chaiff Cwynion ac Apeliadau a gyflwynir gan drydydd parti ar ran y myfyriwr eu derbyn oni bai bod y myfyriwr o dan 18 oed.

4.8. **Polisïau Camymddwyn Academaidd ac Anacademaidd, Cymorth i Astudio ac Addasrwydd i Ymarfer:** Disgwylir i fyfyrwyr fynychu unrhyw gyfarfod i drafod neu ystyried honiadau am fater yn ymwneud â Chamymddwyn Academaidd neu Anacademaidd, Cymorth i Astudio neu Addasrwydd i Ymarfer. Pe bai myfyriwr yn methu â mynychu, ni waeth beth fo cyfranogiad unrhyw drydydd parti, ceidw'r Brifysgol y disgresiwn i ddod i benderfyniad yn ei absenoldeb.

4.9. **Cyfrinachedd myfyrwyr a diogelu data:** Mae PCYDDS yn cyflawni ei dyletswydd i gyfrinachedd ac yn mynd i'r afael â materion diogelu data trwy ofyn am awdurdodiad ysgrifenedig gan y myfyriwr cyn unrhyw ddatgeliad/drafodaeth gyda thrydydd parti. Bydd y cydsyniad hwn yn cynnwys caniatâd i rannu data personol sensitif ynglŷn â'r myfyriwr, megis iechyd a materion eraill a allai fod yn berthnasol i'r amgylchiadau.

## 5. Person sy'n cynorthwyo:

5.1. Gall myfyriwr hefyd gysylltu â thrydydd parti, megis UMYDDS/rhiant/partner/ffrind/awdurdod crefyddol, am gymorth gydag un o brosesau'r brifysgol.

5.2. Os yw'r trydydd parti yn bwriadu cymryd yr awenau yn yr achos ar ran y myfyriwr yna bydd y weithdrefn a amlinellir yn adran 6 isod yn berthnasol a rhaid i'r trydydd parti a benodir yn gynrychiolydd ddefnyddio'r ffurflen (Atodiad SC13).

5.3. Bydd y person sy'n cynorthwyo yn gallu mynychu unrhyw gyfarfodydd gyda'r myfyriwr ac yn derbyn copi o unrhyw ohebiaeth. Ni fydd y person sy'n cynorthwyo fel arfer yn cyfrannu at y trafodaethau.

5.4. Gan gymryd i ystyriaeth yr egwyddor gyffredinol a nodir uchod i ganiatáu un pwynt cyswllt yn unig i gynrychioli'r myfyriwr, bydd PCYDDS yn darparu gwybodaeth i drydydd parti dan yr amgylchiadau hyn dim ond os yw'r Brifysgol wedi derbyn caniatâd wedi'i lofnodi i rannu gwybodaeth bersonol (a all gynnwys data personol sensitif) gyda'r person hwnnw fel y disgrifir yn adran 4.9.

5.5. Heblaw am amgylchiadau eithriadol iawn, dim ond un trydydd parti sy'n gallu ymwneud â chynorthwyo'r myfyriwr drwy'r broses ffurfiol.

5.6. Rhaid i bob trydydd parti gydymffurfio â pholisïau'r Brifysgol sy'n ymwneud â'r achos a gallant gysylltu ag un aelod a enwir o'r staff yn unig (gan ddibynnu ar y cam a

gyrhaeddwyd o fewn y broses). Rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â'r ddogfen hon a'r Polisi Aflonyddu a Bwlio a Chod Ymddygiad y Myfyrwyr.

## 6. Y weithdrefn ar gyfer Penodi Cynrychiolydd Trydydd Parti ffurfiol (cynrychiolydd a enwir)

6.1. Gall myfyrwyr ddewis penodi cynrychiolydd trydydd parti'n ffurfiol (gweler 4.1 uchod) i weithredu ar eu rhan ar unrhyw gam yn ystod y broses trwy gwblhau'r Ffurflen Cynrychiolydd Trydydd Parti (Atodiad SC13). Rhaid i'r ffurflen gael ei dyddio a'i llofnodi gan y myfyriwr a'r cynrychiolydd trydydd parti a'i dychwelyd i'r Brifysgol drwy e-bost i aocases@uwtsd.ac.uk.

6.1.1. Nid oes angen ffurflen os yw myfyrwyr yn cynrychioli eu hunain ond yn gofyn am gyngor neu gymorth gan drydydd parti (e.e. UMYDDS).

6.1.2. Nid oes angen ffurflen chwaith os yw myfyrwyr yn dymuno rhoi caniatâd i'r Brifysgol drafod eu hachos gyda thrydydd parti (e.e. partner/rhiant/gwarcheidwad) – Gweler adran 8 am ragor o fanylion am y weithdrefn berthnasol.

6.2. Bydd gweinyddwr perthnasol y Brifysgol yn ysgrifennu at y cynrychiolydd trydydd parti gan ddarparu copïau o'r ddogfen hon, gweithdrefnau perthnasol eraill y Brifysgol a holl ddogfennaeth yr achos. Bydd y myfyriwr yn derbyn copi o'r ohebiaeth wreiddiol a phob cyswllt o hynny ymlaen gyda'r cynrychiolydd trydydd parti (gweler 6.5 isod).

6.3. Os bydd y Brifysgol yn derbyn gohebiaeth yn uniongyrchol gan drydydd parti ynglŷn ag achos myfyriwr sydd ar y gweill, bydd y Gweinyddwr Prifysgol perthnasol yn cysylltu â'r myfyriwr. Bydd y Brifysgol yn ystyried y mater dim ond ar ôl iddi dderbyn caniatâd ysgrifenedig gan y myfyriwr y mae'r achos yn ymwneud ag ef, gan gynnwys caniatâd i rannu gwybodaeth bersonol (a allai gynnwys data personol sensitif) â'r person hwnnw. Os bydd angen caniatâd ar gyfer cynrychiolaeth ffurfiol fel y disgrifir yn 4.4 a 5.1 uchod, rhaid i'r myfyriwr gwblhau'r Ffurflen Cynrychiolydd Trydydd Parti (Atodiad SC13).

6.4. Cyfathrebu gyda'r cynrychiolydd trydydd parti: Bydd PCYDDS yn cyfathrebu â'r un unigolyn a benodwyd yn ffurfiol er mwyn cadw'r sianeli cyfathrebu'n glir. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gan bob parti.

6.5. Cyfathrebu â'r myfyriwr: Wedi i'r achos gael ei drosglwyddo i gynrychiolydd trydydd parti, bydd y Brifysgol yn cysylltu trwy'r cynrychiolydd trydydd parti yn unig ond bydd y myfyriwr yn derbyn copi o'r holl ohebiaeth ynglŷn â'r achos.

6.6. Terfynau amser: mae'r caniatâd i weithredu fel cynrychiolydd trydydd parti ffurfiol wedi'i gyfyngu i dri mis o'r dyddiad a nodwyd ar y Ffurflen Cynrychiolydd Trydydd Parti neu ddyddiad cwblhau gweithdrefn fewnol y Brifysgol, pa un bynnag yw'r cynharaf. Mewn achosion eithriadol, os oes angen ac os yw'r weithdrefn fewnol yn parhau o hyd, gellir ymestyn y penodiad am gyfnod pellach o dri mis ond dim ond os yw'r myfyriwr yn darparu Ffurflen Cynrychiolydd Trydydd Parti wedi'i diweddaru (Atodiad SC13).

## 7. Dirymu cyfrifoldeb Cynrychiolydd Trydydd Parti

7.1. Gall y myfyriwr ddirymu penodiad y cynrychiolydd trydydd parti unrhyw bryd (yn ysgrifenedig), ac ar yr adeg honno bydd y Gweinyddwr perthnasol sy'n delio â'r achos yn ysgrifennu at y cynrychiolydd trydydd parti i'w hysbysu bod eu penodiad wedi dod i ben ac na fydd y Brifysgol yn parhau i ohebu ag ef.

7.2. Gall y cynrychiolydd trydydd parti ddewis terfynu ei gyfranogiad unrhyw bryd (yn ysgrifenedig). Os digwydd hyn, bydd y Brifysgol yn hysbysu'r myfyriwr.

7.3. Gall y Brifysgol ddiweddu penodiad y cynrychiolydd trydydd parti yn gynnar os cred y Brifysgol bod achos o dorri'r ddogfen bolisi hon neu unrhyw ddogfen bolisi arall (a ddarparwyd i'r cynrychiolydd trydydd parti) wedi digwydd, neu os, yn ei barn resymol, fod y cynrychiolydd trydydd parti wedi ymddwyn yn annerbyniol (gweler adran 9). Yn yr achos hwn, mae penderfyniad y Brifysgol yn derfynol. Bydd y Brifysgol yn hysbysu'r myfyriwr cyn cymryd y cam hwn a bydd wedyn yn hysbysu'r cynrychiolydd trydydd parti. Os bydd trefniant trydydd parti'n cael ei ddirymu, y myfyriwr fydd yn gyfrifol eto am redeg yr achos tan i gynrychiolydd arall, newydd gael ei benodi gan ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad SC13.

## 8. Ymholiadau Trydydd Parti

8.1. Gall trydydd partïon ysgrifennu atom yn gofyn am wybodaeth a/neu'n gofyn i'r Brifysgol weithredu. Mae hyn yn cynnwys cyswllt gan rieni/gwarcheidwaid/Aelodau Seneddol neu berthnasau neu drydydd partïon eraill ar ran myfyrwyr.

8.2. Os yw'r trydydd parti'n bwriadu cymryd yr achos drosodd ar ran y myfyriwr yna bydd y weithdrefn a amlinellir yn adran 6 uchod yn berthnasol a rhaid i'r trydydd parti gael ei benodi'n gynrychiolydd gan ddefnyddio'r ffurflen (SC13).

8.3. Fodd bynnag, os yw'r trydydd parti'n ceisio gwybodaeth neu gamau gweithredu ond nid yw'n bwriadu cymryd yr achos drosodd, mae gan PCYDDS ddisgresiwn, gan weithredu'n rhesymol, i benderfynu pa un ai i ddechrau gohebu â'r trydydd parti neu beidio, gan ystyried yr egwyddor gyffredinol a nodwyd uchod i ganiatáu un pwynt cyswllt yn unig i gynrychioli'r myfyriwr. Bydd PCYDDS yn darparu gwybodaeth i drydydd parti dan yr amgylchiadau hyn dim ond os yw'r Brifysgol wedi derbyn caniatâd wedi'i lofnodi i rannu gwybodaeth bersonol (a all gynnwys data personol sensitif) gyda'r person hwnnw fel y disgrifir yn adran 4.9.

8.4. Gall PCYDDS roi ystyriaeth i'r canlynol wrth ystyried pa un ai i ymateb i'r trydydd parti:

8.4.1. a oes gan y trydydd parti ddiddordeb dilys mewn cysylltu â PCYDDS;

8.4.2. nifer y cysylltiadau a dderbyniodd y Brifysgol mewn perthynas â'r mater a lefel y wybodaeth a geisiwyd gan y trydydd parti;

8.4.3. a oes achosion cyfreithiol wedi'u cychwyn neu'n cael eu hystyried;

8.4.4. cyswllt blaenorol â'r trydydd parti yn ymwneud ag unrhyw fater, gan gynnwys unrhyw ymddygiad annerbyniol, ac

8.4.5. unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn PCYDDS.

8.5. Heblaw am amgylchiadau eithriadol iawn, dim ond un trydydd parti all ymwneud â chynorthwyo'r myfyriwr trwy'r broses ffurfiol.

8.6. Rhaid i bob trydydd parti gydymffurfio â pholisïau'r Brifysgol yn ymwneud â'r achos a gallant gysylltu ag un aelod staff a enwir yn unig (yn dibynnu ar y cam a gyrhaeddwyd yn y broses). Rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â'r ddogfen hon a'r Polisi Aflonyddu a Bwlio a'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr.

## 9. Ymddygiad Annerbyniol

9.1. Mae PCYDDS wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth teg, cyson a hygyrch i'r holl fyfyrwyr a'r staff. Fodd bynnag, rhaid i PCYDDS hefyd ddarparu amgylchedd gwaith diogel i'w staff a sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud mewn modd effeithiol ac

effeithlon. Cred y Brifysgol fod gan bawb sy'n cysylltu â hi yr hawl i gael eu clywed, eu deall a'u parchu.

9.2. Mae PCYDDS yn cydnabod y gall y profiad o fod yn rhan o un o brosesau ffurfiol y Brifysgol achosi straen. Ar adegau o rwystredigaeth neu ofid gall pobl ymddwyn yn groes i'w cymeriad. Gan hynny, ni fyddai'r Brifysgol o reidrwydd yn ystyried gweithredoedd neu ymddygiad myfyriwr neu drydydd parti yn annerbyniol am eu bod yn ymddangos yn ymwthgar neu'n benderfynol yn unig.

9.3. Fodd bynnag, gall gweithredoedd cynrychiolwyr trydydd parti sy'n ddig neu sy'n gosod gofynion niferus a pharhaus, arwain at wneud galwadau afresymol ar staff PCYDDS, neu ymddygiad annerbyniol tuag atynt. Dyma'r gweithredoedd neu'r ymddygiad y mae'r Brifysgol yn eu hystyried yn annerbyniol ac y mae'n ceisio eu rheoli dan y weithdrefn hon.

9.4. **Bwlio ac** Aflonyddu: Ni fydd y Brifysgol yn goddef ymddygiad y mae hi neu'i staff yn ei ystyried yn gyfystyr â bwlio neu aflonyddu, boed hynny ar ffurf cam-drin llafar neu ysgrifenedig, neu fel arall, yn unol â Pholisi Camymddwyn Anacademaidd PCYDDS a Datganiad PCYDDS ar Urddas yn y Gweithle.

9.5. Gall PCYDDS, yn ôl ei disgresiwn, wrthod delio â chynrychiolwyr trydydd parti nad ydynt yn cydymffurfio ag adran 9 y weithdrefn hon.

9.6. Pan fydd y Brifysgol yn ystyried bod gweithredoedd neu ymddygiad trydydd parti yn annerbyniol bydd y Brifysgol yn rhoi cyfle i'r trydydd parti addasu ei weithredoedd neu'i ymddygiad. Os bydd y gweithredoedd neu'r ymddygiad annerbyniol yn parhau, bydd y Brifysgol yn gwrthod delio â'r trydydd parti a enwir ac yn dirymu'r penodiad yn unol ag adran 6 uchod. Ceidw'r Brifysgol yr hawl i gynnwys ei chyfreithwyr neu'r heddlu mewn unrhyw achos o ymddygiad annerbyniol difrifol neu barhaus.

## 10. Asesiad o'r Effaith

| Goblygiad | Ystyriwyd yr effaith (Do/Naddo) | Yr Effaith a Nodwyd |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | Do | *Mae'r polisi'n cydymffurfio â'r canlynol:*<br>- *Cyfraith contractau a defnyddwyr*<br>- *Deddf Hawliau Dynol 1998*<br>- *Deddf Cydraddoldeb 2010*<br>- *Cyfiawnder Naturiol (tegwch)*<br>- *Deddf Diogelu Data 2018 (a GDPR)* |
| Cyfraniad at y Cynllun Strategol | Do | *Mae'r polisi'n cydymffurfio â'r gwerthoedd a fynegwyd yn y Cynllun Strategol.* |
| Dadansoddi Risg | Do | *Bydd cydymffurfio â'r polisi yn lliniaru cwynion i'r OIA, a chwynion i'r ICO.* |
| Cydraddoldeb | Do | *Bydd y polisi'n sicrhau y cedwir at ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb.* |
| Yr Iaith Gymraeg | Do | *Mae'r polisi'n cyd-fynd â'r egwyddorion a fynegir yn Neddf yr Iaith Gymraeg.* |
| Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | Do | *Dim wedi eu dynodi.* |
| Cyfathrebu / Cyfryngau / Marchnata | Do | *Bydd y polisi ar gael i'r staff a'r myfyrwyr drwy'r Hwb a'r Wefan.* |

## 11. Awdur y polisi

11.1. Dr Kyle Erickson, Cyfarwyddwr Profiad Academaidd

## 12. Rheoli Fersiynau Dogfennau

| Rhif y Fersiwn | Rheswm dros y newid | Awdur | Dyddiad y Newid |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Polisi Drafft | KE | 25.08.2020 |

**Statws presennol y Polisi:** DRAFFT

**Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol:** AU

**Dyddiad ei gadarnhau gan y Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr:**

**Dyddiad y daw i rym:** 01/09/2020

**Dyddiad adolygu'r polisi:** 01/09/2021

**I'w gyhoeddi:** ar wefan PCYDDS

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Atodiad SC13

**Ffurflen Cynrychiolydd Trydydd Parti**

**Cais i gael trydydd parti i'ch cynrychioli yn ystod un o brosesau'r Brifysgol (e.e. y Polisïau Apeliadau Academaidd; Camymddwyn Academaidd; Addasrwydd i Astudio neu Ymarfer; Amgylchiadau Lliniarol; Camymddwyn Anacademaidd; neu Gwynion Myfyrwyr)**

| |
|---|
| Rhaid cwblhau'r ffurflen hon os ydych chi'n dymuno penodi trydydd parti yn ffurfiol i'ch cynrychioli yn ystod un o brosesau'r Brifysgol (e.e. ffrind neu berson sy'n cynorthwyo).<br><br>Nid yw hyn yn ofynnol os ydych chi'n cynrychioli eich hun ond yn dymuno ceisio cyngor neu gymorth gan drydydd parti (e.e. UMYDDS) heb iddynt gael copi o'r ohebiaeth na mynychu cyfarfodydd gyda chi. |

Cyn cwblhau'r ffurflen hon, dylech ddarllen y Polisi Cyfranogiad Trydydd Parti.

Fe'ch atgoffir y gallwch gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr unrhyw bryd am gyngor a chymorth ar unrhyw fater.

Dylid teipio'r ffurflen hon, neu'i chwblhau mewn inc du, a'i hanfon i'r Swyddfa Academaidd (aocases@uwtsd.ac.uk) (Cyf: Cynrychiolydd Trydydd Parti)

| Yn ystod proses y cais hwn am adolygiad rhaid cyflwyno pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cais yn ysgrifenedig a'i hanfon drwy'r e-bost neu'r post at y canlynol: | |
|---|---|
| **(gydag e-bost)**<br><br>E-bost: aocases@uwtsd.ac.uk<br><br>Pwnc: Cynrychiolydd Trydydd Parti | **(gyda'r post)**<br><br>Swyddfa Academaidd<br><br>(Cyf: Cynrychiolydd Trydydd Parti)<br><br>Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant<br><br>Heol y Coleg<br><br>Caerfyrddin<br><br>SA31 3EP |

**Atodiad SC13**

**ADRAN A: Manylion y Myfyriwr**

| | |
|---|---|
| Enw'r Myfyriwr: | |
| Rhif y Myfyriwr: | |
| Cyfeiriad Cyswllt: | |
| Rhif Ffôn Cyswllt: | |
| Cyfeiriad e-bost: | |
| Rhaglen Astudio: | |
| Athrofa: | |
| Campws: | |

**ADRAN B: Cytundeb**

- Cadarnhaf fy mod i'n cytuno â'r telerau a amlinellir yn y Polisi Cyfranogiad Trydydd Parti.
- Penodaf y trydydd parti a enwir fel fy nghynrychiolydd i ddelio â'r mater hwn ar fy rhan.
- Deallaf y bydd y Brifysgol yn delio a'm cynrychiolydd ynglŷn â'r mater hwn oni bai fy mod i'n terfynu'r trefniant hwn drwy ysgrifennu at y Brifysgol (aocases@uwtsd.ac.uk).
- Rhoddaf ganiatâd i'r Brifysgol ddarparu gwybodaeth i'r trydydd parti yn ymwneud â'r mater hwn. Cytunaf y gall y Brifysgol ryddhau fy nata personol i'r trydydd parti, gan gynnwys data personol sensitif.
- Cadarnhaf nad yw fy nghynrychiolydd trydydd parti enwebedig yn gynrychiolydd cyfreithiol. Deallaf y bydd y penodiad hwn mewn grym am 3 mis calendr o'r dyddiad y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn.
- Os dymunaf ymestyn y trefniant hwn, bydd angen i mi gwblhau'r ffurflen hon eto a'i hanfon i'r Brifysgol.

| | |
|---|---|
| Llofnod: | Dyddiad: |

**ADRAN C: Manylion Trydydd Parti**

| | | |
|---|---|---|
| Rôl: | Person sy'n Cynorthwyo ☐ | Cynrychiolydd Trydydd Parti ☐ |
| Enw a Theitl: | | |
| Rhif Ffôn Cyswllt: | | |
| Cyfeiriad E-bost: | | |

Cadarnhaf fy mod i'n cytuno â'r telerau a amlinellir yn y polisi hwn.

| | |
|---|---|
| Llofnod: | Dyddiad: |